# YSGOLION YR 21$^{AIN}$ GANRIF












## YMGYNGHORIAD AR GYNNIG I GAU YSGOL GYNRADD Y RHIGOS A THROSGLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYNRADD HIRWAUN

Mae'r ddogfen ymgynghori a'r atodiadau yma hefyd ar gael ar dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

.

RHONDDA CYNON TAF

| **Tabl Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | |
| Â phwy fyddwn ni'n ymgynghori? | 2 |
| Beth fydd y broses ymgynghori yn ei gynnwys? | 3 |
| Yr hyn y bydd angen i chi'i ystyried | 3 |
| Sut mae lleisio'ch barn? | 3 |
| Barn plant a phobl ifainc | 4 |
| Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg | 5 |
| **Adran 1 – Cefndir i'r cynnig** | |
| Y sefyllfa ar hyn o bryd… Ysgol Gynradd y Rhigos | 6 |
| Y sefyllfa ar hyn o bryd… Ysgol Gynradd Hirwaun | 9 |
| Beth yw sail y cynnig? | 11 |
| Pa opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried? | 13 |
| Buddion ac anfanteision, risgiau a ffactorau lliniaru | 16 |
| Ble hoffen ni fod? | 19 |
| Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol | 22 |
| Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg | 22 |
| Trefniadau Derbyn Disgyblion | 23 |
| **Adran 2 – Effaith debygol y cynnig** | |
| Y sail addysgol ar gyfer y cynnig | 25 |
| Beth fydd effaith debygol y cynnig ar ddisgyblion? | 30 |
| Beth fydd effaith debygol y cynnig ar y staff? | 31 |
| Goblygiadau ariannol y cynnig | 31 |
| Gwybodaeth o ran cludiant o'r cartref i'r ysgol | 31 |
| Gwybodaeth o ran tir ac adeiladau | 32 |
| **Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad** | |
| Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad | 33 |

| | |
|---|---|
| **Atodiad A** | Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned |
| **Atodiad B** | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| **Atodiad C** | Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg |

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) yn dymuno ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig i gau Ysgol Gynradd y Rhigos. Bydd disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yn mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun yn lle.

Cynigir y bydd Ysgol Gynradd y Rhigos yn cau ac y bydd disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun erbyn mis Medi 2024 fan bellaf.

Mae'r cynnig yma'n cael ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 (011/2018) Llywodraeth Cymru. Mae Adran 2.1 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Cau ysgol a gynhelir.

**Â phwy fyddwn ni'n ymgynghori?**

Byddwn ni'n ceisio barn y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyrff Llywodraethu:
  - Ysgol Gynradd y Rhigos
  - Ysgol Gynradd Hirwaun
- Rhieni/gwarcheidwaid, darpar rieni/warcheidwaid (lle bo modd), ac aelodau staff:
  - Ysgol Gynradd y Rhigos
  - Ysgol Gynradd Hirwaun
- Disgyblion o:
  - Ysgol Gynradd y Rhigos
  - Ysgol Gynradd Hirwaun
- Awdurdodau Lleol cyfagos
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gweinidogion Cymru
- Aelodau'r Senedd ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái ac Aelodau rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer yr ardal
- Aelodau Seneddol ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal
- Darparwyr Gofal Plant
- Mudiad Meithrin
- Menter Iaith
- Partneriaeth Datblygu Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cyngor Cymuned Rhigos
- Cyngor Cymuned Hirwaun a Phenderyn

## Beth fydd y broses ymgynghori yn ei gynnwys?

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau ar 2 Hydref 2023 a chaiff ei gwblhau am 5pm ar 17 Tachwedd 2023. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad yn cael ei goladu a'i grynhoi, a bydd adroddiad ar yr ymgynghoriad yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ym mis Rhagfyr 2023. Bydd yr adroddiad yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor, a bydd copïau papur ar gael ar gais o'r cyfeiriad a nodir ar dudalen 4.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried Adroddiad yr Ymgynghoriad ac yn penderfynu - yn seiliedig ar yr adborth - a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig, diwygio'r cynnig, neu beidio â bwrw ymlaen ag ef. Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, dyna fydd diwedd y cynnig yma.

Os bydd Cabinet y Cyngor yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig, bydd Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi gan roi cyfnod 28 diwrnod o rybudd ar gyfer gwrthwynebiadau. Mae'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2018 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion, yn cael y cyfle i wneud hynny. Er mwyn ystyried gwrthwynebiadau yn rhai statudol, **rhaid** eu cyflwyno'n ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon at y Cyngor o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr Hysbysiad Statudol ei gyhoeddi.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried canlyniad yr hysbysiad statudol yng nghyfarfod nesaf (cyfleus) y Cabinet ac yn penderfynu ar y cynnig.

Os bydd gwrthwynebiadau, bydd Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad Gwrthwynebu gan ddarparu crynodeb o'r gwrthwynebiadau a'i ymateb iddyn nhw cyn pen 7 diwrnod o ddyddiad dod i benderfyniad ar y cynnig. Bydd yr Adroddiad Gwrthwynebiadau yma ar gael i bawb ei weld ar wefan y Cyngor hefyd, a bydd copïau ar gael ar gais o'r cyfeiriadau sydd ar dudalen 4.

Os yw Cabinet y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig, caiff ei weithredu yn unol â'r dyddiad a gafodd ei roi yn yr Hysbysiad Statudol neu unrhyw ddyddiad sydd wedi'i addasu, wedi hynny.

## Yr hyn y bydd angen i chi'i ystyried

Mae gweddill y ddogfen ymgynghori yma'n nodi'r rhesymeg dros y cynnig. Hoffen ni i chi ystyried yr wybodaeth a chlywed eich barn ynglŷn ag a ydych chi'n cefnogi'r cynnig yma ai peidio.

## Sut mae lleisio'ch barn?

Bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael eu trefnu gyda Chynghorau Ysgol, Cyrff Llywodraethu a staff fel a ganlyn:

| Ysgolion fydd yn cael eu heffeithio | Grŵp | Amser/Dyddiad | Lleoliad |
|---|---|---|---|
| **Cyngor yr Ysgol** | | | |
| Ysgol Gynradd y Rhigos | Cyngor yr Ysgol | I'w cadarnhau | Ysgol Gynradd y Rhigos |
| Ysgol Gynradd Hirwaun | Cyngor yr Ysgol | I'w gadarnhau | Ysgol Gynradd Hirwaun |
| **Corff Llywodraethu a Staff** | | | |
| Ysgol Gynradd y Rhigos | Corff Llywodraethu a Staff | I'w gadarnhau | Ysgol Gynradd y Rhigos |
| Ysgol Gynradd Hirwaun | Corff Llywodraethu a Staff | I'w gadarnhau | Ysgol Gynradd Hirwaun |
| **Sesiwn Galw Heibio Cyhoeddus** | | | |
| Rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned leol. | | Dydd Llun 6ed Tachwedd 2023 am 15:00 i 18:00 | Ysgol Gynradd y Rhigos |
| | | Dydd Mawrth 7fed Tachwedd am 15:00 i 18:00 | Ysgol Gynradd Hirwaun |

Mae Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad ynghlwm ar dudalen 33. Bydd Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd ar gael yn y cyfarfodydd sydd wedi'u nodi yn y tabl blaenorol ac ar wefan y Cyngor ar y dudalen 'Dod yn rhan o bethau'.

Mae'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad hefyd yn fodd i ymgyngoreion nodi eu dymuniad i gael gwybod am gyhoeddi Adroddiad yr Ymgynghoriad ar ôl ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor.

Mae croeso hefyd i ymgyngoreion rannu eu barn, eu sylwadau, ac unrhyw gwestiynau yn ysgrifenedig i:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant<br>Ysgolion yr 21ain Ganrif<br>Tŷ Trevithick<br>Abercynon<br>CF45 4UQ | **NEU** | CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk |

**Dylai'r holl ohebiaeth ddod i law erbyn 5pm ar 17eg Tachwedd 2023 fan bellaf.**

Nodwch na fydd ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig oni bai fod cais arbennig i wneud hynny. Dim ond ar ôl cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol y mae modd anfon gwrthwynebiadau.

**Barn plant a phobl ifainc**

Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod llais plant a phobl ifainc yn ymwneud â'u cynnwys nhw'n gyfranogwyr gweithredol o'r broses datblygu, cyflawni, rheoli a gwella eu profiad addysgol.

Mae gan blant a phobl ifainc hawl i fynegi eu barn ar bob mater sy'n cael effaith arnyn nhw ac i'w barn gael ei chlywed a'i hystyried yn unol â'u hoedran a'u haeddfedrwydd. Felly, bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn sicrhau bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys plant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â’r plant a’r bobl ifainc sy’n mynychu:

- Ysgol Gynradd y Rhigos
- Ysgol Gynradd Hirwaun

Gwneir hyn trwy gynhyrchu fersiwn plant a phobl ifainc o'r Ddogfen Ymgynghori a'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad. Fel y manylir ar dudalen 4, bydd y Cyngor yn cynnal cyfarfod gyda Chynghorau Ysgol:

- Ysgol Gynradd y Rhigos
- Ysgol Gynradd Hirwaun

Diben y cyfarfodydd fydd trafod y cynnig ac arwain Cyngor yr Ysgol drwy'r fersiwn plant a phobl ifainc o'r Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad. Bydd y sesiynau ymgynghori yma'n cael cefnogaeth staff arbenigol mewn ysgolion i gefnogi disgyblion a chynorthwyo gyda'r broses ymgysylltu. Bydd adborth o'r cyfarfodydd yma'n cael eu coladu a'u crynhoi, a bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor i'w ystyried unwaith y bydd y cyfnod ymgynghori wedi dod i ben.

**Asesiadau o'r Effaith ar y Gymuned, ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg**

Fel sy wedi'i nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (011/2018), mae'n ofynnol inni gyhoeddi Asesiadau Effaith ar y Gymuned, Effaith ar Gydraddoldeb ac ar y Gymraeg. Mae'r rhain wedi'u paratoi fel atodiadau i'r ddogfen ymgynghori yma ac maen nhw hefyd ar gael ar wefan y Cyngor:

- Atodiad A – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned
- Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

## Adran 1 – Cefndir i'r cynnig

### Y sefyllfa ar hyn o bryd… Ysgol Gynradd y Rhigos

Mae Ysgol Gynradd y Rhigos yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg 3 i 11 oed sydd wedi'i lleoli yn Heol-y-Graig, Rhigos. Mae lle i 65 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae safle'r ysgol yn cynnwys adeilad gwreiddiol yr ysgol, sydd tua 115 oed, dau estyniad brics a gafodd eu hychwanegu yn y 1960au sy'n cynnwys dau floc toiled, yn ogystal â neuadd ffrâm ddur wedi'i hadeiladu o frics a gafodd ei ychwanegu yn yr 1980au. Mae yna hefyd floc dosbarth metel parod o'r 1950au sy'n gartref i ddisgyblion blynyddoedd cynnar yr ysgol. Mae gan yr adeilad yma waliau metel proffil a tho ffelt isel ar oleddf. Mae gan yr adeilad ffenestri dur gwydr sengl a drysau pren sydd wedi dod i ddiwedd ei oes ddefnyddiadwy. Mae'r ysgol mewn ardal gaeedig, wedi'i hamgylchynu gan ffiniau sy'n cynnwys llystyfiant naturiol, ffensys a waliau brics.

Yn ôl arolwg cyflwr yr ysgol a gafodd ei gynnal gan y Cyngor yn 2019, mae Ysgol Gynradd y Rhigos wedi'i graddio'n C o ran ei chyflwr, a gradd C o ran addasrwydd (lle A yw'r gorau a D yw'r gwaethaf o ran safon). Mae'r adeiladau mewn cyflwr gwael ac mae angen cynnal gwaith adnewyddu i'r waliau, to, drysau a ffenestri. Mae angen hefyd uwchraddio systemau mecanyddol i gydymffurfio â safonau adeiladu cyfredol.

Mae'r ffigur ar gyfer y rhestr hir o waith cynnal a chadw ar gyfer yr ysgol gwerth oddeutu £184,790. Mae'r ffigur yma'n cynrychioli cyfanswm cost yr holl waith cynnal a chadw y nodwyd ei fod yn ofynnol yn yr ysgol Nid yw'n cynnwys costau gwelliannau pellach i alluogi'r ysgol i fodloni safonau Ysgolion yr 21ain Ganrif er mwyn galluogi'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru neu ddod yn ynni effeithlon.

Nid yw'r safle ei hun nac adeilad yr ysgol yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Dydy'r ffens perimedr isel sy'n ffinio â'r maes chwarae o flaen safle'r ysgol ddim yn ddigonol i atal unigolion rhag mynd i dir yr ysgol y tu allan i oriau ysgol. Mae lleoliad yr ysgol, ar brif ffordd, yn gwneud amseroedd gollwng a chasglu yn heriol, gyda threfniadau parcio a throi annigonol i rieni/gwarcheidwaid.

Dim ond tri dosbarth sydd gan Ysgol Gynradd y Rhigos ar hyn o bryd, ac mae pob un o'r rhain yn cynnwys grwpiau blwyddyn cymysg.




*Golygfa allanol o Ysgol Gynradd y Rhigos.*



*Golygfa allanol o'r adeilad parod metel*



*Golygfa allanol o adeilad y neuadd a'r ffreutur*

Mae'r tabl dilynol yn amlinellu nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd y Rhigos dros y pum mlynedd academaidd flaenorol. Cafodd y ffigyrau eu cymryd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) statudol y mae'n rhaid ei gynnal ym mis Ionawr bob blwyddyn. Caiff niferoedd y disgyblion o oedran meithrin ar gyfer pob blwyddyn academaidd eu dangos ar wahân, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (011/2018).

| **Nifer y Disgyblion yn Ysgol Gynradd y Rhigos Dros y Pum Mlynedd Academaidd Flaenorol (CYBLD)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Disgyblion** | **Blwyddyn Academaidd** | | | | |
| | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** | **2020 / 2021** | **2021 / 2022** | **2022 / 2023** |
| **Disgyblion Oed Ysgol Statudol** | 56 | 59 | 63 | 59 | 59 |
| **Disgyblion Oed Meithrin** | 12 | 15 | 8 | 8 | 4 |
| **Cyfanswm** | **68** | **74** | **71** | **67** | **63** |

Mae'r data'n dangos bod niferoedd y disgyblion yn Ysgol Gynradd y Rhigos dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi gostwng yn raddol. Noder, ar hyn o bryd mae 7 disgybl oed statudol yn mynychu'r ysgol sydd y tu allan i'r dalgylch.

Mae'r tabl sy'n dilyn yn amlinellu'r rhagolygon o ran nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd y Rhigos dros y pum mlynedd academaidd i ddod. Mae'r niferoedd wedi'u cyfrifo yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn seiliedig ar ddata genedigaethau byw ar gyfer yr ardal.

| Rhagolygon o ran Nifer y Disgyblion yn Ysgol Gynradd y Rhigos Dros y Pum Mlynedd Academaidd yn y Dyfodol | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Disgyblion | Nifer y lleoedd | Blwyddyn Academaidd | | | | | | Lleoedd Gwag yn 2028/2029 | |
| | | 2023 / 2024 (Gwir ffigwr – 25ain Medi 2023) | 2024 / 2025 | 2025 / 2026 | 2026 / 2027 | 2027 / 2028 | 2028 / 2029 | Nifer | % |
| Disgyblion Oed Ysgol Statudol | 65 | 51 | 52 | 46 | 42 | 37 | 36 | 29 | 45% |
| Disgyblion Oed Meithrin | 9 | 6 | 6 | 5 | 6 | 6 | 6 | 3 | 33% |
| Cyfanswm | 74 | 57 | 58 | 51 | 48 | 43 | 42 | 32 | 43% |

Mae'r dyddiad yn dangos y bydd nifer y disgyblion ar gofrestr yr ysgol yn gostwng yn sylweddol dros y 5 mlynedd nesaf. Mae rhagamcanion yn nodi mai dim ond 37 o ddisgyblion o oedran ysgol statudol fydd yn Ysgol Gynradd y Rhigos yn 2027.

**Y sefyllfa ar hyn o bryd… Ysgol Gynradd Hirwaun**

Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg 3 i 11 oed yn Stryd Glan-Nant, Hirwaun. Mae lle i 394 o ddisgyblion yn yr ysgol. Mae’r ysgol wedi derbyn buddsoddiad gwerth dros £9 miliwn yn ddiweddar yn rhan o Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru. Roedd y gwaith adeiladu yn dilyn yr ymgynghoriad llwyddiannus ar gynnig yn 2019 i adeiladu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg 3 i 11 oed newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun, gan gynnig lle i ddisgyblion sy’n mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun a disgyblion cyfrwng Saesneg Ysgol Gynradd Penderyn. Mae cyflawni’r cynnig yma'n llwyddiannus wedi galluogi Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn i ddod yn ysgol gynradd 3 i 11 oed cyfrwng Cymraeg. Mae'r buddsoddiad yn Ysgol Gynradd Hirwaun wedi sicrhau adeilad ysgol gynradd newydd sbon ac ardaloedd allanol helaeth, gan gynnwys ardaloedd chwarae newydd, ystafell ddosbarth awyr agored a chyfleusterau chwaraeon. Mae yna Ardal Gemau Aml-ddefnydd gyda dau gwrt yn ogystal â lle i storio beiciau, a ffensys diogel o amgylch perimedr y safle i sicrhau diogelwch yr holl ddisgyblion.

Gan mai ysgol newydd ydy hon, mae Ysgol Gynradd Hirwaun wedi'i graddio'n A o ran cyflwr ac A o ran addasrwydd. Mae’r adeilad wedi’i adeiladu i fodloni’r safonau a’r rheoliadau gofynnol, gan alluogi disgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun i elwa o amgylchedd dysgu sy’n addas ar gyfer addysg yr 21ain ganrif. Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun hefyd gyfleusterau sy’n cael eu defnyddio’n rheolaidd gan y gymuned leol, gan sicrhau bod eraill yn elwa o’r adnoddau newydd sydd ar gael.

Mae’r safle ac adeilad yr ysgol yn cydymffurfio’n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae man gollwng a chasglu ar gyfer rhieni / gwarcheidwaid wedi'i osod yn rhan o'r adeilad newydd i helpu gyda materion rheoli traffig, yn ogystal â maes parcio ar wahân sydd ar gael i rieni / gwarcheidwaid ei ddefnyddio. Mae yna hefyd ardal

gollwng/casglu pwrpasol ar y safle ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol, sydd ar hyn o bryd yn darparu ar gyfer y disgyblion sy'n mynychu o Benderyn.




*Golygfa allanol o Ysgol Gynradd Hirwaun.*

Mae'r tabl sy'n dilyn yn amlinellu nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun dros y pum mlynedd academaidd flaenorol.

| **Nifer y Disgyblion Ysgol Gynradd Hirwaun Dros y Pum Mlynedd Academaidd Flaenorol (CYBLD)** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Disgyblion** | **Blwyddyn Academaidd** | | | | |
| | **2018 / 2019** | **2019 / 2020** | **2020 / 2021** | **2021 / 2022** | **2022 / 2023** |
| **Disgyblion Oed Ysgol Statudol** | 216 | 211 | 217 | 237 | 233 |
| **Disgyblion Oed Meithrin** | 42 | 37 | 47 | 35 | 39 |
| **Cyfanswm** | **258** | **248** | **264** | **272** | **272** |

Mae’r data uchod yn adlewyrchu’r cynnydd yn nifer y disgyblion ar y gofrestr yn 2021 o ganlyniad i’r disgyblion cyfrwng Saesneg o Ysgol Gynradd Penderyn yn symud i Hirwaun fel sydd wedi'i nodi uchod.

Mae’r tabl sy’n dilyn yn amlinellu'r rhagolygon o ran nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun dros y pum mlynedd academaidd i ddod. Mae'r niferoedd wedi'u cyfrifo yn unol â’r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn seiliedig ar ddata genedigaethau byw ar gyfer yr ardal.

| Rhagolygon o ran Nifer y Disgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun Dros y Pum Mlynedd Academaidd i Ddod | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgyblion** | **Nifer y lleoedd** | **Blwyddyn Academaidd** | | | | | | **Lleoedd Gwag yn 2028/2029** | |
| | | **2023/2024 (Ffigwr gwir – 25ain Medi 2023)** | **2024 / 2025** | **2025 / 2026** | **2026 / 2027** | **2027 / 2028** | **2028 / 2029** | **Nifer** | **%** |
| **Disgyblion Oed Ysgol Statudol** | 394 | 230 | 232 | 229 | 219 | 228 | 225 | 169 | 43 |
| **Disgyblion Oed Meithrin** | 56 | 32 | 27 | 25 | 27 | 26 | 26 | 30 | 54 |
| **Cyfanswm** | **450** | **262** | **259** | **254** | **246** | **254** | **251** | **199** | **44** |

Mae'r data yn dangos y rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn aros yn llonydd i raddau helaeth dros y 5 mlynedd nesaf.

**Beth yw sail y cynnig?**

**Lleoedd Gwag**

Mae lleihau lleoedd gwag yn un o nifer o flaenoriaethau allweddol ar gyfer Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, wrth i ni ganolbwyntio ar ddod yn faes gwasanaeth mwy cynaliadwy ac yn hyfyw yn economaidd. Mae'r rhagolygon o ran nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd y Rhigos dros y pum mlynedd academaidd nesaf ar gyfer disgyblion o oedran ysgol statudol yn disgyn yn gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn, o 51 o ddisgyblion yn 2023 i ragamcan o 36 o ddisgyblion yn 2028. Erbyn blwyddyn academaidd 2028 amcangyfrifir y bydd gan Ysgol Gynradd y Rhigos 45% o leoedd gwag ar gyfer oedran ysgol statudol. Mae’r rhagolygon o ran nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun dros y pum mlynedd academaidd nesaf ar gyfer disgyblion oedran ysgol statudol yn gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn, o 230 o ddisgyblion yn 2023 i ragamcan o 225 o ddisgyblion yn 2028. Erbyn blwyddyn academaidd 2027, amcangyfrifir y bydd gan Ysgol Gynradd Hirwaun 43% o leoedd gwag ar gyfer oedran ysgol statudol.

Mae’r tabl sy’n dilyn yn amlinellu’r rhagolygon o ran nifer cyfunol y disgyblion yn Ysgol Gynradd Hirwaun ac Ysgol Gynradd y Rhigos dros y pum mlynedd academaidd i ddod. Mae'r niferoedd wedi'u cyfrifo yn unol â’r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

| Rhagolygon o ran Nifer Cyfunol y Disgyblion yn Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun Dros y Pum Mlynedd Academaidd i Ddod | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgyblion** | **Nifer y lleoedd (Ysgol** | **Blwyddyn Academaidd** | | | | | | **Lleoedd Gwag yn 2028/2029** | |
| | | **2023 / 2024 (Ffigur Gwirioneddol)** | **2024 / 2025** | **2025 / 2026** | **2026 / 2027** | **2027 / 2028** | **2028 / 2029** | **Nifer** | **%** |

| | Gynradd Hirwaun) | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Disgyblion Oed Ysgol Statudol** | 394 | 281 | 284 | 275 | 261 | 265 | 261 | 133 | 34% |
| **Disgyblion Oed Meithrin** | 56 | 38 | 33 | 30 | 33 | 32 | 32 | 24 | 43% |
| **Cyfanswm** | **450** | **319** | **317** | **305** | **294** | **297** | **293** | **157** | **39%** |

Mae'r data'n dangos bod digon o leoedd yn Ysgol Gynradd Hirwaun ar gyfer holl ddisgyblion presennol Ysgol Gynradd y Rhigos a'r disgyblion yn y dyfodol, gan barhau i fodloni'r galw lleol am addysg gynradd cyfrwng Saesneg.

**Cyfyngiadau'r safle**

Mae angen atgyweiriadau sylweddol ar yr adeiladau ysgol presennol yn Ysgol Gynradd y Rhigos a dydyn nhw ddim bellach yn addas at y diben, gyda ffigur ar gyfer rhestr hir o waith gynnal a chadw gwerth oddeutu £184,790. Mae oedran ac adeiladwaith yr adeiladau yn atal Ysgol Gynradd y Rhigos rhag derbyn unrhyw waith gwella sylweddol a fyddai'n caniatáu iddi gael ei hystyried yn ddarpariaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif. Rydyn ni'n cydnabod bod athrawon y Rhigos yn darparu addysg wych i ddisgyblion er gwaethaf heriau'r adeilad, fodd bynnag dydy'r adeilad na'r safle ehangach ddim yn helpu i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae'r safle a'r adeiladau yn anhygyrch i raddau helaeth ac felly dydyn nhw ddim yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Cyngor o'r farn y byddai symud disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos i adeilad ysgol bwrpasol yr 21ain ganrif o bosibl yn eu helpu i elwa ar amgylchedd dysgu sy'n meithrin ac yn cefnogi disgyblion, ac yn eu galluogi i elwa o gael eu haddysgu mewn grwpiau blwyddyn mwy o faint gyda disgyblion o'r un oedran.

Mae'r Cyngor o'r gred bod y cynnig yma'n cynrychioli'r cyfle gorau i ddiogelu safonau addysgol ar gyfer y dyfodol a gwneud y mwyaf o fuddsoddiad sylweddol mewn cyfleusterau parhaol ac addas i'r diben. Mae'r buddsoddiad yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn darparu amgylchedd addysgu a dysgu ysgogol gyda chyfleusterau'r 21ain ganrif, gan gynnwys gwell darpariaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh), mannau chwarae awyr agored creadigol a mynediad i gyfleusterau cymunedol.

**Meintiau dosbarthiadau**

Dim ond tri dosbarth sy'n cael eu ffrydio'n fertigol sydd gan Ysgol Gynradd y Rhigos, ac ar hyn o bryd mae tri grŵp blwyddyn yn cael eu haddysgu mewn dau o'r tri dosbarth. Mae'r angen i drefnu dosbarthiadau fel hyn yn creu heriau sylweddol ar gyfer addysgu a dysgu, ac mae rhagor o wybodaeth am hyn wedi'i chynnwys yn yr adran 'Y sail addysgol ar gyfer y cynnig' ar dudalen 25. O ganlyniad i hyn, mae'r Cyngor yn ystyried y byddai darparu addysg i'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos ar hyn o bryd mewn ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yr 21ain ganrif yn Hirwaun sy'n fwy, yn newydd ac yn bwrpasol, yn cynnig y canlynol, ymhlith buddion eraill:

- Mwy o hyblygrwydd a chyfle i ddisgyblion mewn amgylchedd addysgol modern a gwell lle mae modd iddyn nhw ddysgu a phrifio;
- Posibilrwydd o arbedion ariannol yn nhermau gwasanaethau sy'n deillio mewn ysgol fwy a all gael eu hail-fuddsoddi er budd y disgyblion i gyd;
- Mwy o gyfleoedd proffesiynol a chyfleoedd dilyniant ar gyfer y staff addysgu a staff cymorth sy'n cael eu darparu gan ysgol fwy;
- Llai o alw ar staff gan y bydd cyfrifoldebau dros ddatblygu’r Meysydd Dysgu a Phrofiad yn rhan o’r Cwricwlwm i Gymru, a rhwymedigaethau statudol ADY, yn cael eu rhannu;
- Mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol;
- Disgyblion, yn bennaf, yn cael eu dysgu yn rhan o'u grŵp blwyddyn. Mae pob dosbarth yn Ysgol Gynradd y Rhigos yn cynnwys grwpiau blwyddyn cymysg ar hyn o bryd, gyda rhai dosbarthiadau yn darparu ar gyfer disgyblion dros 3 grŵp blwyddyn; a
- Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu a rhyngweithio â nifer fwy o'u cyfoedion yn eu grŵp blwyddyn eu hunain.

**Cyllid**

Caiff cyllid ei ddyrannu i bob ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr, ac o ganlyniad mae gan ysgolion bach lawer llai o hyblygrwydd ariannol. Gan fod Ysgol Gynradd y Rhigos yn ysgol fach, bydd hefyd yn wynebu pwysau ychwanegol gan oes modd iddyn nhw elwa ar arbedion maint yn yr un modd ag ysgolion mwy o faint, e.e. mwy o athrawon i rannu'r ystod eang o rolau sydd eu hangen h.y. Cydlynydd ADY, arweinwyr cwricwlwm, arweinwyr presenoldeb ac ymddygiad, a diogelu.

Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 22/23 mae'r gyllideb alldro sydd wedi'i osod gan y Llywodraethwyr priodol yn y ddwy ysgol yn golygu y bydd gan Ysgol Gynradd y Rhigos falans o £21,013 ac mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun falans o £80,120.

Mae ysgolion yn wynebu pwysau cynyddol yn sgil dyfarniadau cyflog ar gyfer staff addysgu a staff sydd ddim yn addysgu sy'n sylweddol uwch na'r cynnydd amcangyfrifedig yn y gyllideb i'w roi i Lywodraeth Leol, yn ogystal â chynnydd o ran costau ynni a heriau ariannol eraill o ran chwyddiant. O ganlyniad, ar gyfer blwyddyn ariannol 24/25, os na fydd unrhyw gamau'n cael eu cymryd, amcangyfrifir erbyn diwedd 24/25 y bydd gan Ysgol Gynradd y Rhigos ddiffyg o £78,855 a bydd gan Ysgol Gynradd Hirwaun ddiffyg o £50,422.

Fodd bynnag, os caiff y cynigion eu symud ymlaen bydd Ysgol Gynradd Hirwaun yn derbyn cynnydd yn ei fformiwla ariannu o ganlyniad i'r disgyblion ychwanegol ar y gofrestr gan arwain at arbediad amcangyfrifedig gwerth dros £200,000. Yn ogystal, mae dyluniad ac adeiladwaith yr adeilad modern yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn fwy ynni-effeithlon sydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar gostau cynnal yr ysgol gyfan, yn ogystal â sicrhau buddion o ran cynaliadwyedd a lleihau allyriadau carbon.

**Pa opsiynau eraill sydd wedi cael eu hystyried?**

O ystyried cyfyngiadau safle presennol Ysgol Gynradd y Rhigos, a thopograffeg heriol y dalgylch, roedd nifer yr opsiynau eraill ar gael i'w hystyried yn gyfyngedig. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (011/2018), cafodd

opsiynau eraill eu nodi a'u hystyried yn ymwybodol. Mae rhai o fuddion ac anfanteision pob opsiwn a gafodd ei ddiystyru i'w gweld yn y tabl canlynol:

| Opsiwn | Buddion | Anfanteision |
|---|---|---|
| Cadw pethau fel y maen nhw. | • Dim angen buddsoddiad Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru.<br>• Dim angen buddsoddiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.<br>• Dim amharu ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid na staff.<br>• Dim effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. | • Mae agweddau o adeiladau Ysgol Gynradd y Rhigos wedi cyrraedd diwedd eu hoes defnyddiadwy ac maen nhw bellach y tu hwnt i gyflwr economaidd.<br>• Dydy adeiladau Ysgol Gynradd y Rhigos ddim o safon ysgolion yr 21ain ganrif. O ganlyniad i hyn, byddai cyflawni Cwricwlwm newydd i Gymru yn her.<br>• Byddai Ysgol Gynradd y Rhigos yn parhau i beidio â chydymffurfio'n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br>• Byddai'r ffigur ar gyfer y rhestr hir o waith cynnal a chadw gwerth £184,790 yn Ysgol Gynradd y Rhigos yn parhau.<br>• Byddai materion parcio yn Ysgol Gynradd y Rhigos yn parhau i beidio â chael eu datrys.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd y Rhigos.<br>• Fyddai manteision symud i ysgol gynradd sy'n fwy hyfyw yn addysgol ac yn ariannol ddim yn cael eu gwireddu.<br>• Fyddai dim modd gwarchod cyllidebau ysgolion yn ddigonol, a byddai sefyllfa ddiffygiol yn y gyllideb yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddiffyg hyfywedd yr ysgol. |
| Adeiladu ysgol gynradd newydd ar safle Ysgol Gynradd y Rhigos. | • Dim newid tymor hir i ddisgyblion, rhieni / gwarcheidwaid a staff.<br>• Dim effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. | • Mae angen buddsoddiad sylweddol gan Gymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru – ar hyn o bryd does dim cyllid wedi'i ddyrannu ar gyfer hyn. |

| Opsiwn | Buddion | Anfanteision |
|---|---|---|
| | | • Byddai angen defnyddio ystafelloedd dosbarth dros dro yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu ac o ystyried cyfyngiadau'r safle, mae'n bosibl y byddai angen eu symud i rywle arall.<br>• Byddai lleoliad y safle yn cyfyngu ar y gallu i adeiladu ysgol gwbl hygyrch sy’n addas ar gyfer yr 21ain ganrif, gyda chyfleusterau awyr agored priodol.<br>• Mae mynediad i'r safle, ar brif ffordd, yn anfoddhaol.<br>• Byddai problemau parcio presennol yn gwaethygu.<br>• Fyddai manteision symud i ysgol gynradd fwy sy'n fwy hyfyw yn addysgol ddim yn cael eu gwireddu. |
| Adnewyddu Ysgol Gynradd y Rhigos | • Dim newid tymor hir i ddisgyblion, rhieni / gwarcheidwaid a staff.<br>• Dim effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol. | • Bydd angen buddsoddiad sylweddol gan Gymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru – ar hyn o bryd does dim cyllid wedi’i ddyrannu ar gyfer hyn.<br>• Byddai angen defnyddio ystafelloedd dosbarth dros dro yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu ac o ystyried cyfyngiadau'r safle, mae'n bosibl y byddai angen eu symud i rywle arall.<br>• Byddai lleoliad y safle yn cyfyngu ar y gallu i adeiladu ysgol gwbl hygyrch sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif, gyda chyfleusterau awyr agored priodol.<br>• Mae mynediad i'r safle, ar brif ffordd, yn anfoddhaol.<br>• Byddai problemau parcio presennol yn gwaethygu.<br>• Fyddai manteision symud i ysgol gynradd fwy sy'n fwy hyfyw yn addysgol ddim yn cael eu gwireddu. |

| Opsiwn | Buddion | Anfanteision |
|---|---|---|
| Ffedereiddio'r ddwy ysgol o dan un pennaeth ac un corff llywodraethu. | • Dim angen buddsoddiad Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru.<br>• Dim angen buddsoddiad gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.<br>• Dim amharu ar ddisgyblion, rhieni/gwarcheidwaid na staff.<br>• Dim effaith ar gludiant o'r cartref i'r ysgol.<br>• Byddai'n gwireddu rhai arbedion ariannol. | • Mae agweddau o adeiladau Ysgol Gynradd y Rhigos wedi dod i ddiwedd eu hoes defnyddiadwy ac maen nhw bellach y tu hwnt i gyflwr economaidd.<br>• Dydy adeiladau Ysgol Gynradd y Rhigos ddim o safon ysgolion yr 21ain ganrif. O ganlyniad i hyn, byddai cyflawni Cwricwlwm newydd i Gymru yn her.<br>• Byddai Ysgol Gynradd y Rhigos yn parhau i beidio â chydymffurfio’n llawn â Deddf Cydraddoldeb 2010.<br>• Byddai'r ffigur ar gyfer y rhestr hir o waith cynnal a chadw gwerth tua £184,790 yn Ysgol Gynradd y Rhigos yn parhau.<br>• Byddai materion parcio yn Ysgol Gynradd y Rhigos yn parhau i beidio â chael eu datrys.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd y Rhigos.<br>• Fyddai buddion ehangach symud i ysgol gynradd sy'n fwy hyfyw yn addysgol ac yn ariannol ddim yn cael eu gwireddu.<br>• Fyddai dim modd gwarchod cyllidebau ysgolion yn ddigonol, a byddai sefyllfa cyllideb mewn diffyg yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddiffyg hyfywedd yr ysgol. |

**Buddion ac anfanteision, risgiau a ffactorau lliniaru**

Cynigir y bydd Ysgol Gynradd y Rhigos yn cau gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun erbyn mis Medi 2024 fan bellaf.

Mae'n anochel y bydd unrhyw gynigion sy'n cynnwys ad-drefnu ysgolion yn achosi rhywfaint o darfu ac ansicrwydd. Serch hynny, mae profiad yn dangos bod modd achosi cyn lleied o darfu â phosibl trwy ymgysylltu ystyrlon trwy gydol y broses

ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd.

Mae buddion ac anfanteision y cynnig i'w gweld yn y tabl sy'n dilyn, yn ogystal â gwybodaeth o ran sut y mae modd rheoli unrhyw risgiau a nodir.

| **Buddion** |
|---|
| Dydy Ysgol Gynradd y Rhigos ddim yn rhan o raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn golygu na fydd unrhyw fuddsoddiad yn cael ei wneud yn y dyfodol agos i greu cyfleusterau'r 21ain ganrif ar y safle, a does dim cyllideb i wneud gwelliannau sylweddol yn y cyfamser. Bydd mynychu ysgol yr 21ain ganrif newydd yn arwain at welliant sylweddol yn ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos, gan gael effaith gadarnhaol sylweddol ar eu cyflawniad addysgol. |
| Chafodd Ysgol Gynradd y Rhigos ddim ei hadeiladu i fod yn ynni-effeithlon, yn wahanol i'r adeilad newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun hefyd wedi'i hadeiladu i safonau Rhagorol BREEAM, ac mae ganddi sgôr A o ran y Dystysgrif Perfformiad Ynni. Mae gan yr ysgol bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar y safle, sy'n cyfrannu at gyflawni Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd Cyngor Rhondda Cynon Taf: 2022 i 2025 – Hinsawdd Ystyriol Rhondda Cynon Taf ac mor agos â phosibl at fod yn garbon niwtral fel Bwrdeistref Sirol erbyn 2030. Bydd y cynnig yma hefyd yn cefnogi Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Carbon Isel a'i 'Drywydd' i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. |
| Mae ardal bwrpasol yn Ysgol Gynradd Hirwaun wedi'i chynnwys yn yr ysgol, sy'n galluogi'r gymuned leol i ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol yn ddiogel, yn ystod ac ar ôl y diwrnod ysgol. Bydd disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid presennol Ysgol Gynradd y Rhigos yn elwa o hyn. |
| Mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun ffin perimedr diogel ar gyfer diogelwch yr holl ddisgyblion ar y safle ac mae'n atal unigolion anawdurdodedig rhag cael mynediad i'r safle y tu allan i oriau ysgol. Cafodd y ffin ei adeiladu i safonau diwydiant 'Diogelu Drwy Ddylunio'. |
| Bydd mynediad i gyfleusterau allanol ysgolion yr 21ain ganrif, gan gynnwys ystafell ddosbarth awyr agored ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd, yn galluogi staff, disgyblion, a'r gymuned i elwa ar ystod ehangach o brofiadau addysgu a dysgu. |
| Fydd dim rhaid i ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos aros i ysgol newydd gael ei hadeiladu. Mae'r gwaith o adeiladu'r ysgol newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun wedi'i gwblhau ac yn barod i ddisgyblion presennol Ysgol Gynradd y Rhigos symud i mewn iddi. |
| Bydd trefniadau traffig ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Gynradd y Rhigos yn gwella, gan y bydd gan bob disgybl hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. |
| Bydd mwy o sefydlogrwydd ariannol gydag ysgol fwy â mwy o ddisgyblion ar y gofrestr. |
| **Anfanteision** |
| Mae'n anochel y bydd rhai o ddisgyblion a staff Ysgol Gynradd y Rhigos yn byw'n bellach o safle'r ysgol newydd. |
| Bydd cynnydd mewn costau cludiant o'r cartref i'r ysgol a fydd yn cael ei dalu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. |
| Gallai symud i safle yr ysgol newydd achosi gorbryder ar gyfer rhai disgyblion, staff a rhieni/gwarcheidwaid. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bydd goblygiadau staffio i'r rhai sy'n cael eu cyflogi yn Ysgol Gynradd y Rhigos. Er enghraifft, bydd rhai rolau sy'n cael eu dyblygu ar hyn o bryd yn strwythur staffio Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd staff yn pryderu am ddiogelwch eu swyddi felly bydd sylw yn cael ei roi i'r pryderon hyn cyn gynted ag sy'n bosibl yn ystod y broses statudol yma. | | | |
| Bydd effaith ar y gymuned drwy gael gwared ar ysgol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr. Mewn cymuned fach bydd colli ysgol yn cael ei deimlo'n gyfatebol fwy nag mewn cymuned fwy. | | | |
| **Risgiau** | **Tebygolrwydd** | **Effaith** | **Camau Lliniaru** |
| **Cymeradwyaeth** – Rhieni / gwarcheidwaid yn dewis anfon eu plant i ysgol arall | Isel | Isel | • Bydd Carfan Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor yn gofalu bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i gynnwys rhieni/gwarcheidwaid a phlant a phobl ifainc yn gyfranogwyr gweithredol trwy gydol y broses ymgynghori ac, os penderfynir bwrw ymlaen â'r cynnig, drwy gydol y broses weithredu hefyd. |
| **Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol** – Cynnydd mewn costau cludiant o'r cartref i'r ysgol. | Canolig | Isel | • Y Cyngor fydd yn gyfrifol am unrhyw oblygiadau refeniw sy'n codi o ganlyniad i gludiant o'r cartref i'r ysgol. Fydd yr ysgol a rhieni / gwarcheidwaid y disgyblion a fydd angen cludiant o'r cartref i'r ysgol o ganlyniad i'r cynnig ddim yn cael eu heffeithio. |
| **Cynnydd o ran Traffig** | Isel | Isel | • Mae capasiti yn yr ardal ar gyfer cynnydd o ran symudiadau traffig. Yn rhan o'r buddsoddiad sylweddol yn Ysgol Gynradd Hirwaun, canolbwyntiwyd yn benodol ar wella'r trefniadau rheoli traffig ar y safle ac oddi ar y safle, gan gynnwys gwell parcio i staff a chreu man gollwng pwrpasol ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol, ac oddi ar y safle cafodd maes parcio i'r gymuned ei adeiladu gan ddarparu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | mannau parcio ychwanegol i rieni a gwarcheidwaid yn ystod cyfnodau prysur. |
| **Staff** – Mae'n bosibl na fydd staff presennol Ysgol Gynradd y Rhigos yn cael eu cadw ar ôl rhoi'r cynnig ar waith. | Canolig | Canolig | • Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gadw staff a bydd, fel sydd wedi digwydd gydag Ysgolion y 21ain Ganrif eraill sydd eisoes wedi'u hadeiladu ledled RhCT, yn gweithio gyda staff ac Undebau Llafur i sicrhau bod y broses newid yn cael ei thrin mewn modd sympathetig a chefnogol ac y bydd cyfleoedd i ymgysylltu â staff wrth i'r cynnig fynd rhagddo.<br>• Bydd staff ac unrhyw Undebau Llafur perthnasol yn cael gwybod am unrhyw ddiweddariadau neu benderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol. |
| **Effaith ar y Gymuned** | Canolig | Canolig | • Bydd ymgynghoriad ar wahân ar gyfer ystyriaethau ac opsiynau ar unrhyw ddefnydd posibl o safle'r ysgol yn y dyfodol.<br>• Cydnabyddir y gallai'r cynnig effeithio ar y gymuned leol, fodd bynnag nid dyma ddylai fod y ffactor pennaf wrth benderfynu ar y cynnig yma. Gostyngiad yn y niferoedd ar y gofrestr, cynaliadwyedd, hyfywedd ariannol ac ansawdd yr addysg yw'r brif ystyriaeth wrth benderfynu ar ddyfodol yr ysgol. |

**Ble hoffen ni fod?**

Cynigir bod Ysgol Gynradd y Rhigos yn cau a bod ei disgyblion yn mynychu Ysgol Gynradd Hirwaun. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn darparu ar gyfer plant rhwng 3

ac 11 oed sydd angen addysg cyfrwng Saesneg. Mae lle i 391 o ddisgyblion (ynghyd â meithrinfa).

Mae dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos yn nalgylch mwy Ysgol Gynradd Gymraeg Penderyn (YGG Penderyn), ac fel sydd eisoes yn digwydd, mae gan ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos yr opsiwn i fynychu YGG Penderyn, yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg leol. Mae'r Garfan Trochi yn y Gymraeg yn darparu cymorth i ddisgyblion sy'n dewis symud i addysg cyfrwng Cymraeg o'r sector Saesneg, a bydd y ddarpariaeth yma'n parhau i fod ar gael i unrhyw ddisgyblion sy'n dymuno ei defnyddio. Mae lle yn YGG Penderyn ar gyfer unrhyw ddisgyblion o Ysgol Gynradd y Rhigos sy'n dymuno mynychu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn lle parhau â darpariaeth cyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Hirwaun.

Cafodd Ysgol Gynradd Hirwaun ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99, ac mae'n gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynnwys:

- Amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa fawr, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas a chyfleusterau cwbl hygyrch.
- Mannau hyblyg i ganiatáu cyflwyno'r meysydd dysgu a phrofiad yn unol â'r cwricwlwm newydd i Gymru.
- Ardaloedd dan do ac awyr agored i'r gymuned leol.
- Rhywfaint o le ychwanegol ar gyfer ymyraethau anghenion dysgu ychwanegol.
- Gwell lleoedd awyr agored i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm, gan gynnwys ystafell ddosbarth awyr agored ac ardal 'ysgolion coedwig'.
- Mesurau rheoli traffig gwell.

Cafodd Ysgol Gynradd Hirwaun ei hadeiladu yn unol â Bwletin Adeiladu 99 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cynradd newydd gynnwys darpariaeth ar gyfer chwaraeon tîm, gan gynnwys ystafelloedd newid, man chwarae sy'n addas ar gyfer gemau tîm ar gyfer disgyblion 8 oed a hŷn ac Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) ar gyfer chwaraeon fel pêl-droed, pêl-fasged a phêl-rwyd. Mae'n ofynnol hefyd i ysgolion cynradd newydd gynnwys ardaloedd chwarae meddal - fel arfer man glaswellt - lle gall disgyblion eistedd a chymdeithasu, dosbarthiadau awyr agored, ac ardal ysgol y goedwig ochr yn ochr â meysydd chwarae wyneb caled a man dan gysgod i ategu'r ardaloedd chwarae meddal o amgylch safle'r ysgol. Bydd disgyblion sy'n dod o dan ddalgylch Ysgol Gynradd y Rhigos yn cael mynediad i'r holl gyfleusterau hyn ac yn cael profiadau gwerthfawr o adnodda'r 21ain ganrif sydd ar gael iddyn nhw.

Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn ysgol gymunedol gyda darpariaeth gofal plant breifat ar safle'r ysgol. Mae Rachael's Playhouse, y darparwr gofal plant, yn cynnig darpariaeth Dechrau'n Deg, gofal plant preifat, y cynnig gofal plant, a gwasanaeth cofleidiol i blant hyd at 5 oed.

Maen nhw wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer 30 o leoedd ac ar hyn o bryd mae ychydig o leoedd gwag gyda nhw.

**Lluniau o Ysgol Gynradd Hirwaun**



Ardal adnoddau dysgu amlbwrpas neu 'calon yr ysgol' yn Ysgol Gynradd Hirwaun.



Dosbarth y cyfnod sylfaen yn Ysgol Gynradd Hirwaun.

**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Ar hyn o bryd does dim Dosbarthiadau Cynnal Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Ysgol Gynradd y Rhigos nac Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd cymorth i ddisgyblion sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan y Gwasanaethau Cynhwysiant yn parhau a fydd y cynnig yma ddim yn effeithio ar y ddarpariaeth yma mewn unrhyw ffordd.

Mae Ysgol Gynradd Hirwaun yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys bod â darpariaethau megis ystafelloedd hylendid ar gyfer y rhai y gallai fod angen eu defnyddio. Mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau barhau i adolygu’r trefniadau ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn eu hardal ac ystyried a ydyn nhw'n ddigonol. O ganlyniad, bydd yr angen am ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn parhau i gael ei adolygu, ac mae digon o le yn Ysgol Gynradd Hirwaun ar gyfer adnoddau pellach pe bai angen yn y dyfodol.

Mae Ysgol Gynradd Hirwaun wedi’i dylunio gyda mannau hyblyg i ganiatáu cyfleoedd ar gyfer addysgu a dysgu mewn grwpiau llai, mannau ar gyfer ymyrraeth, ac i ddarparu cymorth un i un lle bo angen. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn yr Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb sydd ynghlwm yn Atodiad B.

**Y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg**

Rhaid i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru lunio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Dogfen gynllunio iaith tymor hir yw'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sy'n pennu'r cyfeiriad o ran cynllunio, cyflenwi a thwf strategol addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg fel pwnc. Nod y Cyngor trwy'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, cynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad yw cyfrannu'n sylweddol at gyflawni'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050 fel sydd wedi'i nodi yn nogfen Cymraeg 2050. Mae modd gweld Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a’i lawrlwytho o wefan y Cyngor drwy’r ddolen ganlynol:

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/SchoolsandLearning/SchoolAdmissions/relateddocuments/WESPJune2022.pdf

Mae saith deilliant yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a fydd yn helpu'r Cyngor i archifo’r targedau sydd wedi'u gosod. Un o’r targedau yma yw:

- Rhagor o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.

Nod y Cyngor yw ymgorffori arferion ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg trwy gynllunio pwrpasol a hyrwyddo defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion yn yr ysgol ac yn y gymuned ehangach. Mae Ysgol Gynradd y Rhigos ar hyn o bryd yn cefnogi'r nod yma trwy ddefnyddio mentrau fel 'Criw Cymraeg', ac mae Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun yn annog disgyblion i ddefnyddio Cymraeg achlysurol lle bynnag y bo modd. Bydd disgyblion sy’n

mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos ar hyn o bryd yn parhau i gael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg pan fyddan nhw'n symud i Ysgol Gynradd Hirwaun.

Mae cyfle gan ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos eisoes i fynychu YGG Penderyn os hoffen nhw, sef yr ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg leol. Mae cymorth gan y Garfan Trochi yn y Gymraeg ar gael i unrhyw ddisgybl sy'n dewis symud i addysg cyfrwng Cymraeg, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae lle yn YGG Penderyn ar gyfer unrhyw ddisgyblion o Ysgol Gynradd y Rhigos sy'n dymuno mynychu addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn lle parhau â chyfrwng Saesneg yn Ysgol Gynradd Hirwaun.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer y cynnig yma wedi'i baratoi ac mae wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori.

**Trefniadau Derbyn Disgyblion**

Bydd dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael ei ehangu i gynnwys dalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos.

Os bydd rhagor o geisiadau yn dod i law na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff meini prawf wedi'u cyhoeddi ar gyfer derbyn disgyblion eu rhoi ar waith mewn perthynas â phob cais sy'n dod i law. Mae hyn er mwyn pennu'r disgyblion sydd wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau'r lleoedd sydd ar gael. Dyma'r meini prawf sydd wedi'u nodi yn ôl blaenoriaeth yn llyfryn polisi derbyn disgyblion 'Dechrau'r Ysgol' y Cyngor:

1. Categori 1 – Plant dan adain gofal y Cyngor (plant sy'n derbyn gofal cyhoeddus) a phlant sydd wedi bod dan adain gofal y Cyngor.
2. Categori 2 – Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol, sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn yr ysgol honno, sy'n byw yn yr un cartref â nhw pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ar ddyddiad disgwyliedig derbyn y plentyn iau.
3. Categori 3 – Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol heb frawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol.
4. Categori 4 – Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol, sydd â brawd neu chwaer hŷn sy'n ddisgybl yn yr ysgol honno, sy'n byw yn yr un cartref â nhw pan fydd y cais yn cael ei gyflwyno ac a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol honno ar ddyddiad disgwyliedig derbyn y plentyn iau.
5. Categori 5 – Plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol heb frawd neu chwaer hŷn yn yr ysgol.

Mae 'cartref' mewn perthynas â'r meini prawf uchod yn cyfeirio at leoliad/cyfeiriad penodol y cartref lle mae'r plentyn yn byw.

Bydd y plant yn cael eu derbyn i'r ysgol hyd at y Nifer Derbyn wedi'i Chyhoeddi, yn nhrefn y blaenoriaethau uchod. Os nad oes modd cynnig lle i bob un o'r ceiswyr o fewn unrhyw un o'r categorïau sydd wedi'u rhestru uchod, byddwn ni'n rhoi blaenoriaeth i blant sy'n byw agosaf at yr ysgol. Caiff y pellter ei fesur yn ôl y llwybr cerdded mwyaf diogel a byr rhwng drws blaen y cartref a'r giât agosaf sydd ar agor yn yr ysgol. Mewn ardaloedd lle does dim llwybr cerdded diogel wedi'i nodi gan yr Awdurdod Lleol, bydd yr Awdurdod Lleol yn mesur y pellter yn ôl y daith gyrru fwyaf byr rhwng drws blaen y cartref a'r giât agosaf sydd ar agor yn yr ysgol. Bydd y pellter

yma'n cael ei fesur gan ddefnyddio'r 'System MapInfo' yn unig. Fyddwn ni ddim yn rhoi ystyriaeth i unrhyw system arall. Yn achos rhieni/gwarcheidwaid sy’n rhannu cyfrifoldebau gofal am blentyn, y cyfeiriad ar gyfer talu Budd-dal Plant fydd y cyfeiriad i’w gymryd i ystyriaeth.

Mae'r cyfnod ymgeisio am dderbyn disgyblion ar gyfer dechrau ym mis Medi 2024 eisoes wedi cychwyn ac yn rhedeg tan 10 Tachwedd 2023. Bydd unrhyw geisiadau ar gyfer Ysgol Gynradd y Rhigos yn trosglwyddo'n awtomatig i Ysgol Gynradd Hirwaun neu mae modd i rieni/gwarcheidwaid wneud cais am ysgol arall.

## Adran 2 – Effaith debygol y cynnig

### Y sail addysgol ar gyfer y cynnig

Dylai cynigion i newidiadau sefydliadol ysgolion dynnu sylw at y manteision addysgol y gallai unrhyw newid yn eu cynnig, yn arbennig mewn perthynas â gwella safonau'n gyffredinol, ond hefyd o ran datblygiad cymdeithasol ac emosiynol plant, a allai gael effaith ffafriol ar eu cyflawniad a'u deilliannau cyffredinol.

Barn y Cyngor yw y gallai cau Ysgol Gynradd y Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun wella deilliannau a darpariaeth addysgol ar gyfer disgyblion presennol Ysgol Gynradd y Rhigos. Mae adeilad ysgol addas at y diben yn helpu i ddarparu cwricwlwm cytbwys ym mhob grŵp blwyddyn yn unol â Chwricwlwm i Gymru - 2022 Llywodraeth Cymru. Mae'n bosibl y bydd ysgolion llai yn ei chael hi'n fwy anodd cyflwyno holl 'Feysydd Dysgu a Phrofiad' Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru - 2022 gan fod llai o staff gyda nhw i arbenigo ac i arwain ar y cwricwlwm a datblygiadau strategol. Mae angen i ysgolion llai gyda llai o staff ymgymryd â mwy nag un rôl, ac mae modd i hyn arwain at lwythi gwaith mwy a llai o gyfleoedd i arbenigo. Byddai modd i amgylchedd dysgu'r 21$^{ain}$ ganrif hefyd ddarparu mwy o hyblygrwydd, amgylchedd dysgu mwy hyblyg a mwy o ddewis ac amrywiaeth ym mhrofiadau dysgu disgyblion.

Bydd modd i ysgolion mwy ddarparu mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion oherwydd yr amgylchedd addysgol estynedig a gwell ar gyfer dysgu a datblygu; Mae mwy o gyfle i staff ddatblygu arbenigeddau ac ymyraethau mwy pwrpasol mewn ysgol fwy, ac mae hyn yn bwysig o ran dilyniant disgyblion a chyflawniad deilliannau addysgol da i bawb. Mewn ysgolion mwy, yn aml mae cyfle i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth ehangach o weithgareddau cwricwlwm ac allgyrsiol. Os bydd y cynnig yma'n llwyddiannus, bydd mwy o ddisgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeilad ysgol bwrpasol sy'n addas at y diben o ddarparu addysg yn yr 21$^{ain}$ ganrif.

Mewn ysgolion llai, dim ond hyn a hyn o gyfleoedd sydd ar gyfer modelau o arweinyddiaeth wedi'u dosrannu, ac mae modd i hyn arwain at bwysau o ran llwyth gwaith a phroblemau o ran capasiti.

Ar hyn o bryd mae gan Ysgol Gynradd y Rhigos dri dosbarth sy'n cael eu ffrydio'n fertigol, ac mae dau o'r tri dosbarth yn addysgu disgyblion ar draws tri grŵp blwyddyn. O ystyried y gostyngiad a ragwelir yn nifer y disgyblion yn yr ysgol, bydd y sefyllfa yma'n dod yn fwy heriol fyth ymhen amser.

Mae heriau sylweddol wrth addysgu disgyblion sydd wedi'u grwpio'n fertigol. Mewn dosbarth sy'n cael ei ystyried â'r nifer safonol o ddisgyblion, bydd bob amser ystod o alluoedd y bydd angen darparu ar eu cyfer trwy wahaniaethu effeithiol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cwrdd ag anghenion y disgyblion i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd cryf yn eu dysgu a'u bod yn cael eu herio'n briodol. Mewn ysgol fach lle mae grwpiau fertigol ac ystod eang o alluoedd, gall fod yn heriol i'r staff addysgu a'r staff cymorth ddiwallu'r ystod eang o anghenion academaidd, yn ogystal ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, yr holl ddisgyblion. Cydnabyddir bod Ysgol Gynradd y Rhigos yn cynnig profiadau dysgu cadarnhaol i ddisgyblion, ond er hynny mae addysgu mwy nag un grŵp blwyddyn mewn un amgylchedd ystafell ddosbarth yn gallu bod yn her sylweddol mewn lleoliadau addysgol.

Mae bod yn athro mewn dosbarth sydd wedi'i ffrydio'n fertigol yn rhoi pwysau ychwanegol ar rôl sydd eisoes yn heriol, gan ei fod yn gofyn i'r athro wahaniaethu'n gyson ac yn effeithiol ym mhob maes dysgu i sicrhau bod anghenion unigol pob disgybl yn cael eu diwallu. Os na fydd hyn yn digwydd a bod tasgau union yr un fath neu debyg iawn yn cael eu gosod i ddisgyblion i'w cwblhau sydd ddim bodloni eu hystod eang o anghenion yn effeithiol, gall hyn arwain at gymhelliant gwael, ymddieithriad a chynnydd academaidd gwael ymhlith y disgyblion.

Mewn dosbarth sy'n cael ei ffrydio'n fertigol gall ddod yn arferol bod yr addysgu a'r gwaith dilynol sy'n cael ei ddarparu yn cael eu cyflwyno mewn modd sy'n bodloni galluoedd y disgyblion cyffredin yn y dosbarth. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd disgyblion mwy galluog ddim yn cael eu herio'n effeithiol o ran eu dysgu ac y bydd y disgyblion hynny sydd angen cymorth ychwanegol ar ei hôl hi ymhellach o ran eu dysgu gan nad yw eu hanghenion yn cael eu bodloni. Gall effaith arddull addysgu o'r fath arwain at dangyflawni ymhlith disgyblion sydd â gallu uchel a gallu isel. Yn amlwg, mae modd mynd i'r afael â hyn trwy addysgu a dysgu hynod effeithiol a thrwy wahaniaethu helaeth, ond gall hyn fod yn heriol pan fydd gyda chi hyd at 3 grŵp blwyddyn mewn un ystafell ddosbarth.

Ym mhob dosbarth bydd gan ddisgyblion ganfyddiad o'u hunain fel dysgwr a lle maen nhw wedi'u gosod yn nhermau dysgu yn y dosbarth. Yn yr amgylchiadau hyn, mae modd i hunan-barch disgyblion hefyd ddylanwadu ar y ffordd maen nhw'n gweld eu hunain fel dysgwyr a sut maen nhw'n dysgu. Mewn dosbarth sydd wedi'i grwpio'n fertigol, bydd yn anochel eto oherwydd yr ystod oedran eang o ddisgyblion y bydd heriau posibl o ran hunan-barch disgyblion, yn enwedig os yw disgyblion hŷn yn gwneud gwaith sydd naill ai'r un fath neu'n debyg i ddisgyblion iau yn yr un dosbarth. Mae modd mynd i'r afael â hyn trwy wahaniaethu hynod effeithiol ond serch hynny gall hyn fod yn heriol o safbwynt addysgu a dysgu pan fydd ystod eang o grwpiau blwyddyn dan sylw.

Her arall ar gyfer ysgol fach yw y bydd modd i ddisgybl gael ei addysgu gan yr un athro am nifer o flynyddoedd, neu o bosibl drwy'r holl gyfnod os yw'r athro hwnnw'n symud dosbarth yn rheolaidd. Gellir ystyried bod cael eu haddysgu gan yr un person yn fantais wrth iddyn nhw ddod i adnabod y disgybl hwnnw'n dda iawn. Serch hynny, gall y gwrthwyneb fod yn wir yn yr ystyr y gallen nhw ddod yn rhy gyfarwydd ac yna eu bod nhw ddim yn darparu lefel yr her sydd ei hangen ar y disgybl. Mae hefyd yn fuddiol i ddisgyblion gael mynediad at ystod eang o staff sydd ag ystod o arbenigeddau fel eu bod yn gwireddu eu potensial ar draws ystod lawn y cwricwlwm. Yn ogystal, mae'r berthynas rhwng disgybl ac athro yn un bwysig ac mae modd i ansawdd y berthynas honno amrywio o athro i athro. Pan nad oes llawer o gysylltiad ag ystod eang o staff, mae'n bosibl y bydd hyn hefyd yn heriol mewn lleiafrif o achosion lle mae'r berthynas efallai yn un llai cadarnhaol.

Mae gan ysgolion bach, yn ôl eu natur, ddewis cyfyngedig ar gyfer gweithgareddau ar ôl ysgol, ac efallai nad ydy clybiau traddodiadol ar gyfer pêl-droed, rygbi a phêl-rwyd yn cael eu darparu gan nad oes digon o ddisgyblion o'r ystod oedran hwnnw i greu'r timau. Yn yr un modd, os yw athrawon neu staff cymorth yn darparu'r gweithgareddau ar ôl ysgol, os mai nifer bach o staff sydd, mae'n anochel mai niferoedd bach o glybiau fydd yn cael eu cynnig. O ganlyniad, prin yw'r cyfleoedd sy'n cael eu rhoi i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau i wella eu medrau cymdeithasol ac emosiynol. Mae hyn yn golygu, wrth iddyn nhw symud

ymlaen i addysg uwchradd, y gallen nhw o bosibl fod yn llai datblygedig mewn rhai meysydd o gymharu â'u cyfoedion o ysgolion mwy. Byddai modd dweud yr un peth eto am lais y disgybl yn yr ysgol gan y gallai'r niferoedd bach olygu nad oes digon o ddisgyblion ar gael i fod yn rhan o'r gwahanol strwythurau pwyllgor, neu fod y pwyllgorau'n cynnwys yr un disgyblion ym mhob un gan arwain at ddiffyg safbwyntiau amrywiol, a photensial i ailadrodd syniadau a chynlluniau gweithredu ar gyfer pob pwyllgor.

Yn olaf, mae gofynion y Cwricwlwm i Gymru yn sylweddol ar gyfer ysgol fach. Gallai fod yn rhaid i bob athro arwain ar ddau faes yr un o'r chwe maes dysgu a phrofiad. Mae goblygiadau llwyth gwaith sylweddol i hyn ar ben y cyfrifoldebau eraill y byddai'n rhaid i'r athro eu cyflawni hefyd. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn disgwyl i ysgol lunio cwricwlwm pwrpasol sydd â chyd-destunau dilys ac sy'n berthnasol i'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu, sy'n golygu ei fod yn gysyniad hyblyg sy'n newid ac yn addasu i ddiwallu anghenion y disgyblion.

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gosod disgwyliad trwm ar staff i dreialu, datblygu a llunio'r cwricwlwm pwrpasol newydd yma, a byddai angen i staff fod allan o'r dosbarth i fynd i sesiynau dysgu proffesiynol yn ogystal â chreu adnoddau a deunyddiau. Byddai hyn yn golygu y gallai dosbarth yr athro, o ganlyniad, gael nifer sylweddol o athrawon cyflenwi yn eu dosbarth dros gyfnod hir o amser, a fyddai'n golygu na fyddai disgyblion yn cael eu haddysgu'n rheolaidd gan eu hathro dosbarth. Efallai na fyddai gan yr athrawon cyflenwi hyn yr wybodaeth a'r sgiliau i addysgu'r dosbarth yn effeithiol, a byddai hyn yn effeithio'n negyddol ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion yn y dosbarth yma. Gallai'r llwyth gwaith trwm yma gael ei waethygu ymhellach os bydd un aelod o staff yn absennol o'r gwaith. Gallai hyn arwain at ddau aelod o staff yn arwain ar dri Maes Dysgu a Phrofiad - byddai'r llwyth gwaith yma'n sylweddol ac efallai y bydd y cwricwlwm a gaiff ei lunio a'i gyflwyno o ganlyniad ddim cystal ag y gallai fod, ac na fyddai'n darparu'r cynnig cwricwlwm gorau sydd ei angen ar y disgyblion.

Mae ysgol fach yn anochel yn darparu llai o gyfleoedd i ddisgyblion ryngweithio ag ystod eang o blant o'r un oedran ac i ddatblygu grwpiau cyfeillgarwch estynedig. At hynny, oherwydd y cyllidebau llai sy'n gysylltiedig ag ysgolion llai, mae llai o gyfleoedd i gyflogi ystod eang o staff cymorth ac i ryddhau staff o'u hystafelloedd dosbarth i arwain ar rolau arbenigol. Gall gwydnwch hefyd fod yn ffactor sylweddol mewn ysgolion llai pan fydd staff yn absennol o'r gweithle.

**Gwybodaeth Estyn**

Cafodd Ysgol Gynradd y Rhigos ei harolygu gan Estyn ym mis Chwefror 2019.

Roedd cyflawniad Ysgol Gynradd y Rhigos yn y pum maes arolygu fel a ganlyn:

| Maes arolygu | Dyfarniad |
|---|---|
| Safonau | Da |
| Lles ac agweddau tuag at ddysgu | Da |
| Profiadau Addysgu a Dysgu | Da |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arwain a Rheoli | Da |

Argymhellodd Estyn hefyd welliannau i Ysgol Gynradd y Rhigos eu rhoi ar waith er mwyn codi ansawdd y ddarpariaeth addysg sydd ar gael. Roedd argymhellion Estyn fel a ganlyn:

1. Argymhelliad Un - Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol dau wneud dewisiadau a phenderfyniadau annibynnol ynghylch sut i gymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn gwersi.
2. Argymhelliad Dau – Datblygu sgiliau siarad a gwrando yn y Gymraeg disgyblion yng nghyfnod allweddol dau.
3. Argymhelliad Tri – Darparu cyfleoedd pellach i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol dau ddefnyddio eu sgiliau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Cafodd Ysgol Gynradd Hirwaun ei harolygu gan Estyn yn 2018.

Roedd cyflawniad Ysgol Gynradd Hirwaun yn y pum maes arolygu fel a ganlyn:

| **Maes arolygu** | **Dyfarniad** |
|---|---|
| Safonau | Digonol ac angen gwella |
| Lles ac agweddau tuag at ddysgu | Digonol ac angen gwella |
| Profiadau Addysgu a Dysgu | Anfoddhaol ac angen gwelliant brys |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
| Arwain a Rheoli | Digonol ac angen gwella |

Argymhellodd Estyn welliannau i'r ysgol eu rhoi ar waith er mwyn codi ansawdd y ddarpariaeth addysg sydd ar gael. Roedd argymhellion Estyn fel a ganlyn:

1. Argymhelliad 1 – Gwella ansawdd yr addysgu a’r adborth i ddisgyblion.
2. Argymhelliad 2 – Gwella safonau darllen, ysgrifennu a chyflwyniad gwaith disgyblion.
3. Argymhelliad 3 – Gwella safonau TGCh disgyblion.
4. Argymhelliad 4 – Sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni gofynion a datblygu medrau disgyblion yn raddol.
5. Argymhelliad 5 – Gwella sgiliau dysgu annibynnol disgyblion.
6. Argymhelliad 6 – Nodi a mynd i’r afael yn gywir â meysydd addysgu a dysgu pwysig y mae angen eu gwella a dwyn pob aelod o staff i gyfrif yn drylwyr.

O ganlyniad i'r arolygiad yn 2018, rhoddodd Estyn Ysgol Gynradd Hirwaun yn y categori 'Gwelliant Sylweddol.' Mewn ymateb i ganlyniad yr arolygiad craidd, roedd gofyn i Ysgol Gynradd Hirwaun lunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion, yn amodol ar adolygiad gan Estyn. Ym mis Gorffennaf 2019, cafodd ymweliad dilynol ei gynnal a farnodd fod cynnydd digonol wedi’i wneud mewn perthynas â’r argymhellion. O ganlyniad, tynnodd Estyn Ysgol Gynradd Hirwaun oddi ar y rhestr o ysgolion sydd angen 'Gwelliant Sylweddol'.

Ers ei harolygiad diweddaraf, mae Ysgol Gynradd Hirwaun wedi derbyn adeilad a chyfleusterau newydd sbon yr 21ain ganrif yn rhan o Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor o'r farn y byddai cau Ysgol Gynradd y Rhigos a throsglwyddo disgyblion i ysgol newydd, bwrpasol sy'n addas ar gyfer y 21ain ganrif yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael effaith gadarnhaol fawr ar bob un o bum maes arolygu Estyn, fel y nodir isod:

1. Safonau (Dysgu) – Bydd mwy o ddisgyblion yn cael mynediad i adeilad ysgol newydd sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif sy'n darparu mannau addysgu gwell, ardaloedd pwrpasol ar gyfer adnoddau, amgylcheddau dysgu ysgogol ac offer TGCh o'r radd flaenaf. Bydd y rhain oll yn cefnogi parhad o ran codi safonau, ac yn gwneud cynnydd yn erbyn argymhellion Estyn. Mae mwy o botensial ar gyfer arbedion maint ac effeithlonrwydd ariannol gan ysgolion mwy, a byddai modd cronni'r rhain a'u hail-fuddsoddi er budd pob disgybl.
2. Lles ac Agweddau at Ddysgu – Dylai symud disgyblion o Ysgol Gynradd y Rhigos i Ysgol Gynradd Hirwaun, sy'n safle gyda chyfleusterau newydd sbon, gael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae mannau mewnol hyblyg ar gael i gyflwyno cymorth ychwanegol i ddisgyblion. Bydd man awyr agored helaeth yn darparu amgylchedd amrywiol a deniadol i ddisgyblion ddysgu a chwarae ynddo. Gallai fod mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion hefyd yn sgil amgylchedd addysgol estynedig a gwell i ddysgu a thyfu ynddo, a bydd mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu a rhyngweithio â niferoedd mawr o'u cyfoedion yn eu grŵp blwyddyn.
3. Profiadau Addysgu a Dysgu – Bydd symud disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos, sy'n ysgol fach, i ysgol fwy Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio, cydgysylltu a rhannu arbenigedd a phrofiad. Bydd modd i ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos, sydd ar hyn o bryd mewn dosbarthiadau sy'n cynnwys dau neu dri grŵp blwyddyn, elwa o gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o'u grŵp oedran eu hunain. Mae adeilad ysgol sy'n addas i'r diben yn helpu i ddarparu cwricwlwm cytbwys ar gyfer pob grŵp oedran yn unol â Chwricwlwm i Gymru – 2022 Llywodraeth Cymru. Mae'n bosibl y bydd ysgolion llai yn ei chael hi'n fwy anodd cyflwyno holl 'Feysydd Dysgu a Phrofiad' Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru gan fod llai o staff gyda nhw i arbenigo ac i arwain ar y cwricwlwm a datblygiadau strategol. Byddai modd i amgylchedd dysgu'r 21ain ganrif hefyd roi rhagor o hyblygrwydd ac felly rhagor o ddewis ac amrywiaeth o ran profiadau dysgu'r disgyblion.
4. Gofal, Cymorth ac Arweiniad – Bydd amgylched yr 21ain ganrif yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos ddatblygu ymhellach ystod eang o weithgareddau allgyrsiol i annog ffyrdd iach o fyw a meithrin disgyblion. Mae adeilad cwbl hygyrch a darpariaeth mannau hyblyg yn galluogi Ysgol Gynradd Hirwaun i ymestyn ei harfer dda a hwyluso ymyraethau ac ymgysylltiad pellach â theuluoedd a'r gymuned leol. Mae safle'r ysgol newydd wedi'i ddylunio i sicrhau nad yw diogelu'n cael ei beryglu, ac mae'r ysgol wedi cyflawni achrediad 'diogelu drwy ddylunio'.
5. Arweinyddiaeth (a Rheoli) – Mae'n bwysig bod arweinyddiaeth mewn ysgolion yn cael ei chefnogi gan adnoddau addas i'r diben sy'n briodol ar gyfer addysg yn yr 21ain ganrif. Mae Ysgol Gynradd Hirwaun wedi gwneud cynnydd yn erbyn argymhellion Estyn yn hyn o beth. Mae'r adnoddau a'r cyfleusterau newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn darparu amgylcheddau dysgu effeithiol a chefnogol i ddisgyblion. Mae modd i ddisgyblion elwa o ardaloedd awyr agored addas ac ysgogol i chwarae a dysgu ynddyn nhw, ac mae'r adnoddau ac offer priodol ysgol yr 21ain ganrif yn sicrhau bod modd cyflwyno Cwricwlwm i Gymru Llywodraeth Cymru i'r safonau gofynnol. Bydd ysgol fwy yn darparu mwy o gyfleoedd

proffesiynol a chyfleoedd dilyniant ar gyfer y staff addysgu a staff cymorth, a mwy o gyfle ar gyfer modelau o arweinyddiaeth wedi'u dosrannu.

**Beth fydd effaith debygol y cynigion ar ddisgyblion?**

Rydyn ni'n rhagweld fydd y newidiadau arfaethedig ddim yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion. Mae’n bosibl y bydd rhai disgyblion yn teimlo’n bryderus ar y dechrau ynghylch y posibilrwydd o symud i ysgol newydd sy'n fwy ac ar safle newydd, ond bydd y pennaeth a’r garfan staff yn sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi’n briodol yn ystod y cyfnod pontio yma.

Gallai’r newidiadau arfaethedig ddod â llawer o fanteision i ddisgyblion. Drwy gael eu haddysgu mewn adeilad ysgol newydd, modern, pwrpasol gyda chyfleusterau o’r radd flaenaf, bydd modd i hyn gael effaith sylweddol ar ansawdd ac amrywiaeth profiad dysgu a chyflawniad addysgol y disgyblion.

Bydd symud disgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos, sy'n ysgol fach, i ysgol fwy Ysgol Gynradd Hirwaun yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio, cydgysylltu a rhannu arbenigedd a phrofiad. Bydd modd i ddisgyblion Ysgol Gynradd y Rhigos, sydd ar hyn o bryd mewn dosbarthiadau o grwpiau blwyddyn cymysg, elwa o gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o’u grŵp oedran eu hunain. Gallai fod mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion hefyd yn sgil amgylchedd addysgol estynedig a gwell i ddysgu a thyfu ynddo, a bydd mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gymdeithasu a rhyngweithio â niferoedd mawr o’u cyfoedion yn eu grŵp blwyddyn.

Bydd dalgylch Ysgol Gynradd Hirwaun yn ymestyn i gynnwys dalgylch Ysgol Gynradd y Rhigos hefyd. Er ei bod yn anochel y bydd rhai disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd y Rhigos ar hyn o bryd yn byw ymhellach i ffwrdd o'r safle newydd, efallai y bydd rhai disgyblion yn byw yn agosach ato. At ei gilydd, ystyrir bod yr effaith ar drefniadau teithio disgyblion yn fach iawn.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Cyngor wedi mabwysiadu hawliau plentyn Confensiwn y Cenhedloedd Unedig, sydd yn cael eu mynegi mewn saith nod craidd, hynny yw, bod pob plentyn a pherson ifanc:

1. Yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
2. Yn cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu.
3. Yn mwynhau'r iechyd gorau posibl ac yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu herlid a rhag i neb gam-fanteisio arnyn nhw.
4. Yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol.
5. Yn cael dweud eu dweud, eu trin â pharch, a bod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol yn cael eu cydnabod.
6. Â chartref diogel a chymuned sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol.
7. Yn osgoi bod o dan anfantais oherwydd tlodi.

Mae'r Cyngor o'r farn bod y cynnig yma o fudd i'r plant a phobl ifainc yn unol â'r saith nod craidd sydd wedi'u nodi uchod.

Mae rhagor o wybodaeth am effaith y cynnig ar ddisgyblion, gan gynnwys sut mae'r cynnig yn cyfrannu at bob un o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

2015, yn ogystal ag asesiad o'r cynnig ar y pum ffordd o weithio, ar gael yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn Atodiad B.

**Beth fydd effaith debygol y cynigion ar y staff?**

Ein bwriad ni yw argymell i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Hirwaun 'glustnodi' unrhyw swyddi ychwanegol sydd eu hangen o ganlyniad i gynnydd yn y nifer o ddisgyblion, islaw haen yr Uwch Reolwyr, ar gyfer y staff presennol sy'n cael eu cyflogi yn Ysgol Gynradd y Rhigos yn y lle cyntaf. Mae hynny'n golygu y caiff staff Ysgol Gynradd y Rhigos y cyfle cyntaf i gyflwyno cais am swyddi ychwanegol yn Ysgol Gynradd Hirwaun cyn eu hysbysebu'n allanol. Os byddan nhw'n llwyddiannus, byddan nhw'n trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun pan fydd y cynnig yn cael ei roi ar waith. Mae gan y Cyngor bolisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol.

Gallai staff sy'n trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun gael y cyfle i arbenigo mewn meysydd penodol o'r cwricwlwm. Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gosod disgwyliad trwm ar staff i dreialu, datblygu a llunio’r cwricwlwm pwrpasol newydd yma, sy’n heriol iawn mewn ysgol lai fel Ysgol Gynradd y Rhigos. A hithau'n ysgol gryn dipyn yn fwy, mae gan Ysgol Gynradd Hirwaun fwy o staff er mwyn caniatáu arbenigo o'r fath a'r gallu i rannu'r llwyth gwaith yn fwy effeithiol. Mae hyn yn rhoi rhagor o gyfleodd i staff o ran dilyniant a datblygiad proffesiynol.

**Goblygiadau ariannol y cynnig**

Fydd dim goblygiadau cyllid cyfalaf pe bai'r cynnig yma'n mynd yn ei flaen. Cafodd yr adeilad a’r cyfleusterau newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun eu cwblhau yn 2021 ac mae lle yn yr ysgol ar gyfer disgyblion sy’n dod o dan ddalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos.

Bydd arbedion refeniw yn cael eu gwireddu drwy gau Ysgol Gynradd y Rhigos, fodd bynnag, bydd goblygiadau refeniw eraill yn deillio o'r cynnig, gan gynnwys cynnydd mewn costau cludiant o'r cartref i'r ysgol a fydd yn cael ei bennu unwaith y bydd nifer y disgyblion sy'n ceisio cludiant wedi'u cadarnhau. Bydd y rhain yn cael eu nodi wrth i'r cynnig gael ei ddatblygu a bydd goblygiadau refeniw manwl yn cael eu cynnwys yn nhrefniadau Ariannol Tymor Canolig Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Ar hyn o bryd y gost fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun yw £6,426.01 a £4,406.37 yn y drefn honno. Pe bai'r cynigion yn mynd yn eu blaenau, amcangyfrifir mai £4,031.89 fyddai'r gost fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Hirwaun.

Mae gwybodaeth ariannol fanylach mewn perthynas â’r cynnig yma ar dudalen 11 y ddogfen yma.

**Gwybodaeth o ran cludiant o’r cartref i’r ysgol**

Mae'n ddyletswydd statudol ar bob awdurdod lleol yng Nghymru i ddarparu cludiant am ddim i ddisgyblion i'w hysgolion addas agosaf os ydyn nhw'n byw pellter sydd y tu hwnt i 'bellter cerdded' o'r ysgol honno. Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at

ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, neu ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig gynradd, uwchradd neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' yn ddwy filltir i ddisgyblion o oedran addysg gynradd gorfodol a thair milltir i bob disgybl o oedran addysg uwchradd gorfodol.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r disgresiwn sydd wedi'i roi iddo gan Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008, a chynnig darpariaeth fwy hael i ddisgyblion. Mae'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas ag Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun wedi'i nodi isod:

- Mae'r maen prawf ar gyfer pellter cerdded i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd orfodol yn eu hysgol addas agosaf wedi cael ei osod ar 1½ milltir, yn hytrach na 2 filltir fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae cludiant am ddim i'w hysgol addas agosaf, lle mae lleoedd ar gael, yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n bodloni'r maen prawf 1½ milltir o ddechrau'r Cyfnod Sylfaen (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed), yn hytrach nag o ddechrau addysg orfodol (dechrau'r tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn 5 oed) fel sy'n ofynnol gan y Mesur.
- Mae'r term 'ysgol addas' yn cyfeirio at ddalgylch ysgol cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg, ysgol cyfrwng Cymraeg a Saesneg, ysgol prif ffrwd wirfoddol gymorthedig (yr Eglwysi) neu ysgol/dosbarth arbennig fel y bo'n briodol.

Mae rhagor o wybodaeth mewn perthynas â darpariaeth cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor ar gael i'w darllen a'i lawrlwytho o wefan y Cyngor:

https://www.rctcbc.gov.uk/cludiantysgol

Mae tua 2.8 milltir rhwng Ysgol Gynradd y Rhigos ac Ysgol Gynradd Hirwaun sydd yn uwch na'r pellter o 1.5 milltir sy'n cael ei ganiatáu yn y meini prawf cymhwyster ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol a restrir uchod. Yn ogystal, does dim llwybr cerdded diogel i ddisgyblion presennol Ysgol Gynradd y Rhigos fedru cerdded i Ysgol Gynradd Hirwaun, pe bai'r cynnig yn llwyddiannus. O ganlyniad, bydd gan yr **holl** ddisgyblion yn nalgylch presennol Ysgol Gynradd y Rhigos yr hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol. Bydd yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth cynyddol yma'n cael eu talu'n gyfan gwbl gan y Cyngor.

**Gwybodaeth o ran tir ac adeiladau**

Os caiff y cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen yma eu rhoi ar waith, fydd dim angen safle presennol Ysgol Gynradd y Rhigos. Gan mai proses ymgynghori gychwynnol yw hon, does dim penderfyniadau wedi'u gwneud eto ynglŷn â dyfodol y safle a'r adeilad yma. Fodd bynnag, un opsiwn, os daw'r safle'n wag, yw ymgynghori â'r gymuned leol i ganfod a oes angen cynaliadwy gan y gymuned yn lleol y byddai modd ei gyflawni'n llwyddiannus a'i ddiwallu o'r safle yma.

Bydd y broses yma yn cael ei reoli yn unol â Pholisi'r Cyngor ar Dir ac Adeiladau Gwag.

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i helpu i ddod i benderfyniad ynglŷn â'r cynnig isod, byddai'n ddefnyddiol iawn pe bai modd i chi ateb y cwestiynau canlynol. Sylwch, fyddwn ni ddim yn rhannu unrhyw wybodaeth bersonol rydych chi'n ei rhoi. Bydd hi'n cael ei defnyddio at ddibenion rhoi adborth i chi yn unig, a hynny yn ôl y gofyn. Bydd unrhyw sylwadau mae modd eu defnyddio i'ch adnabod chi yn cael eu nodi'n ddienw yn adroddiad yr ymgynghoriad. Mae gofyn i chi ddychwelyd ffurflenni wedi'u llenwi i'r cyfeiriad yma:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant<br>Ysgolion yr 21ain Ganrif<br>Tŷ Trevithick<br>Abercynon<br>CF45 4UQ | **NEU** | CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk |

**Y cynnig:**

Cau Ysgol Gynradd y Rhigos a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gynradd Hirwaun.

- Ydych chi'n cytuno â'r cynnig? Ydw Nac ydw Ddim yn siŵr

Nodwch y rhesymau dros eich dewis.

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

- Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol)?

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

- Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

- Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

- Nodwch unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech chi i ni'u hystyried (atodwch ddalennau ychwanegol os oes angen).

| |
|---|
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

- Nodwch pwy ydych chi (e.e. rhiant/gwarcheidwad disgybl yn yr ysgol sy'n cael ei henwi, llywodraethwr yr ysgol sy'n cael ei henwi ac ati).

- Enw (dewisol):

- Rhowch fanylion cyswllt os ydych chi'n dymuno cael gwybod am gyhoeddi'r adroddiad ar yr ymgynghoriad.

**Anfonwch holiaduron wedi'u llenwi i'r cyfeiriad uchod erbyn 17:00 ar 17eg Tachwedd 2023, fan bellaf.**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i sicrhau bod eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel a'i fod yn rhoi gwybod i chi sut mae'n defnyddio'ch gwybodaeth. I ddysgu am sut rydyn ni'n diogelu'ch preifatrwydd, a sut a pham rydyn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth bersonol i ddarparu gwasanaethau ar eich cyfer chi, darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd (Ymgynghori) yma:

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Council/DataProtectionandFreedomofInformation/DataProtection/serviceprivacynotices/ChiefExecutives/ConsultationPrivacyNotice.aspx

a

https://www.rctcbc.gov.uk/DiogeluData

**Ffurflen fonitro - Arferion gorau (modd i wasanaethau ei haddasu) (CASGLU AR-LEIN/YN DDIGIDOL).**

Mae CBSRhCT wedi ymrwymo i'r egwyddor o gyfleoedd cyfartal. Wrth gael darlun clir o broffil cydraddoldeb ein ymatebwyr ymgynghoriad, bydd hi'n bosibl i ni fonitro pa mor effeithiol y mae ein polisïau a'n dulliau gweithredu ni o ran materion cyfleoedd cyfartal. Rydyn ni'n cynnal gwaith monitro er mwyn nodi diffygion o ran mynediad i'n gwasanaethau ni, gan ymateb i hyn trwy wneud newidiadau wedi'u targedu. Caiff data eu defnyddio i wella gwasanaethau ac wrth adrodd yn ôl yn unig.

Mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn gwbl rydd i benderfynu a ydyn nhw'n llenwi'r ffurflen yma ai peidio a does dim canlyniadau o beidio â gwneud hynny. Dydyn ni ddim yn bwriadu cadw unrhyw wybodaeth bersonol o'r ffurflen yma a fydd yn datgelu pwy ydych chi. Cofiwch hynny wrth i chi ateb yn y blychau testun ‘rhydd’. Pan rydych chi'n darparu gwybodaeth i ni amdanoch chi'ch hun neu eraill, bydd CBSRhCT yn sicrhau y bydd yn cael ei phrosesu yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a'i defnyddio at ddibenion monitro ac adrodd yn ôl yn unig.

**Oedran**

- ☐ 16-24
- ☐ 25-34
- ☐ 35-44
- ☐ 45-54
- ☐ 55-64
- ☐ 65-74
- ☐ 75 oed +
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

**Rhyw**

Ydych chi'n:

- ☐ Benyw
- ☐ Gwryw
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

**Hunaniaeth Rhywedd**

Ydych chi'n uniaethu'n berson:

- ☐ Anneuaidd
- ☐ Traws
- ☐ Dd/B
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma:

________________________

**Cyfeiriadedd Rhywiol**

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'ch cyfeiriadedd rhywiol orau?

- ☐ Deurywiol
- ☐ Dyn hoyw
- ☐ Menyw hoyw/Lesbiaidd
- ☐ Heterorywiol/Syth
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch term eich hun, nodwch y term yma: ________________________

**Hunaniaeth Genedlaethol**

Sut byddech chi'n disgrifio'ch hunaniaeth genedlaethol?

- ☐ Prydeinig
- ☐ Cernywig
- ☐ Seisnig
- ☐ Gwyddelig
- ☐ Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- ☐ Albanaidd
- ☐ Cymreig
- ☐ Arall (rhowch ddisgrifiad): ________________________
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

**Ethnigrwydd**

Sut byddech chi'n disgrifio'ch grŵp ethnig?

- ☐ Arabaidd
- ☐ Asiaidd: Prydeinig
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Bangladeshi
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Tsieineaidd
- ☐ Asiaidd: Cernywig
- ☐ Asiaidd: Seisnig
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Indiaidd
- ☐ Asiaidd: Gwyddelig
- ☐ Asiaidd: Gwyddelig Gogledd Iwerddon
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Pacistanaidd
- ☐ Asiaidd: Albanwr/Albanes
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Dwyrain Asiaidd - Arall
- ☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: De Asiaidd - Arall
- ☐ Asiaidd: Cymreig

☐ Asiaidd neu Asiaidd Brydeinig: Arall (rhowch ddisgrifiad):

______________________

☐ Du: Prydeinig
☐ Du neu Ddu Brydeinig Affricanaidd
☐ Du neu Ddu Brydeinig Caribïaidd
☐ Du: Cernywig
☐ Du: Seisnig
☐ Du: Gwyddelig
☐ Du: Gwyddelig Gogledd Iwerddon
☐ Du: Albanaidd
☐ Du: Cymreig
☐ Du, Du Prydeinig, neu Ddu Affricanaidd: Arall (rhowch ddisgrifiad):

______________________

☐ Sipsiwn Seisnig
☐ Sipsiwn Gwyddelig
☐ Teithiwr Gwyddelig
☐ Sipsiwn Albanaidd
☐ Teithiwr Albanaidd
☐ Sipsiwn Cymreig

☐ Cymysg/Lluosog: Affricanaidd a Charibïaidd
☐ Cymysg/Lluosog: Du Prydeinig a Gwyn
☐ Cymysg/Lluosog: Du Affricanaidd a Gwyn
☐ Cymysg/Lluosog: Du Caribïaidd a Gwyn
☐ Cymysg/Lluosog: Dwyrain Asiaidd a Gwyn
☐ Cymysg/Lluosog: De Asiaidd a Gwyn
☐ Cymysg/Lluosog: Arall (rhowch ddisgrifiad): ______________________

☐ Roma
☐ Sinti

☐ Gwyn: Prydeinig
☐ Gwyn: Cernywig
☐ Gwyn: Seisnig
☐ Gwyn: Sipsiwn
☐ Gwyn: Gwyddelig
☐ Gwyn: Teithiwr Gwyddelig
☐ Gwyn: Gwyddelig Gogledd Iwerddon
☐ Gwyn: Albanaidd
☐ Gwyn: Cymreig
☐ Gwyn: Arall (rhowch ddisgrifiad): ______________________

☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Os Grŵp Ethnig arall neu os yw'n well gyda chi ddefnyddio'ch diffiniad eich hun, nodwch y diffiniad yma: ____________________

**Anabledd**

Ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Fel hyn mae'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yn diffinio anabledd: '*Amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hir dymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau pob dydd arferol'.*

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

**Crefydd neu gred**

Beth yw eich crefydd/cred?

- ☐ Bwdhydd
- ☐ Cristion (gan gynnwys Eglwys Cymru, Catholig, Protestannaidd a phob enwad arall)
- ☐ Hindŵ
- ☐ Iddew
- ☐ Mwslim
- ☐ Anghrefyddol (e.e. Anffyddiwr, Dyneiddiol ac ati)
- ☐ Sikh
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Os nad yw eich crefydd neu gred wedi'i rhestru neu pe hoffech chi ddefnyddio'ch diffiniad eich hun, nodwch hynny yma: ___________

**Cyfrifoldebau rhoi gofal**

Ydych chi'n gofalu am aelodau o'r teulu, ffrindiau, cymdogion neu eraill (neu'n rhoi cymorth iddyn nhw) oherwydd naill ai: cyflwr/anabledd corfforol neu feddyliol tymor hir, neu broblemau sy'n gysylltiedig â henaint?

- ☐ Nac ydw
- ☐ Ydw, 1-19 awr yr wythnos
- ☐ Ydw, 20-49 awr yr wythnos
- ☐ Ydw, 50 awr neu fwy yr wythnos
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

**Beichiogrwydd a mamolaeth**

Ydych chi'n feichiog ar hyn o bryd, neu ydych chi wedi bod yn feichiog yn ystod y 12 mis diwethaf?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Ydych chi wedi bod ar gyfnod mamolaeth yn ystod y 12 mis diwethaf, neu ydych chi ar gyfnod mamolaeth ar hyn o bryd?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

**Cyn-filwyr a'r Lluoedd Arfog**

Ydych chi erioed wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, neu'n gwasanaethu ar hyn o bryd?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Gwell gyda fi beidio â dweud

Dydw i ddim eisiau darparu unrhyw wybodaeth y mae gofyn amdani ar y ffurflen yma